DATGANIAD I'R WASG
Dydd Llun 31 Mai 2010

Ceufadu o amgylch Cymru!

Heddiw, bydd tri o swyddogion gweithgareddau awyr agored yr Urdd, sydd wedi eu lleoli yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn ger y Bala, yn dechrau ar daith go anghyffredin. Bwriad y tri yw ceufadu o amgylch Cymru mewn tair wythnos gan fordwyo o amgylch glannau Cymru, i'r Afon Ddyfrdwy, i lawr yr Afon Hafren ac yn ôl allan i Fôr Hafren. Bydd y daith yn dechrau yn harbwr Aberaeron.

Mae Arwel Phillips, Alun Pugh a Hefin Peregrine wedi bod yn paratoi ac yn ymarfer i'r daith ers misoedd lawer. Mae'r tri yn staff llawn amser yn y Gwersyll ac wrth eu boddau yn gweithio yn yr awyr agored.

Prif nod y daith yw codi proffeil Gwersyll Glan-llyn, a'i diwtoriaid proffesiynol awyr agored Cymraeg eu hiaith. Fe fydd y daith hefyd yn codi arian i'r Ambiwlans Awyr.

Yn ystod y daith tair wythnos, bydd dau o Swyddogion awyr agored newydd Urdd Gobaith Cymru, sy'n cael eu hariannu fel rhan o gynllun Llwybrau i'r brig, Llywodraeth y Cynulliad, yn tiwtora ieuenctid ar sgiliau canŵio a cheufadu ar hyd a lled Cymru. Bydd grwpiau bychain o blant a phobl ifanc yn derbyn hyfforddiant arbenigol mewn chwaraeon dŵr, yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â phosibiliadau gyrfaoedd yn y diwydiant awyr agored a hefyd yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â chlybiau gweithgareddau awyr agored lleol ledled Cymru.

Yn ôl Arwel: "Mae Alun, Hefin a minnau yn hynod o lwcus i gael cymorth a chyngor y ceufadwr profiadol Ray Goodwin, i'n harwain ar y daith. Ray oedd y canwiwr cyntaf i fordwyo Cymru ac ef hefyd oedd y cyntaf i ganŵio ar draws Môr Iwerddon. Roedd y daith honno, rydyn ninnau bellach wedi ei chyflawni, yn daith 78 milltir a barodd 21 awr mewn caiac. Bydd y daith hon yn gwbl wahanol. Bydd y daith oddeutu 650 milltir ac rydyn ni'n amcangyfrif teithio hyd at 40 milltir y diwrnod, a bydd modd i ni gael seibiant i gysgu, bwyta ac yfed wrth ddod i'r lan yn ystod y nos. Rydyn ni'n gobeithio cwblhau'r daith mewn 21 diwrnod. Dwi'n meddwl y byddwn angen ymroddiad llwyr a phenderfyniad yn hytrach na ffitrwydd gyda'r daith hon. Yn sicr, dwi'n edrych ymlaen at y sialens!"

Dymuna'r tri ddiolch i'w noddwyr am eu cefnogaeth a'u cymorth: Urdd Gobaith Cymru, Magnox North, Coleg Prifysgol y Drindod, Gelert a Urenco. Meddai Ceredig Emanuel, Pennaeth yr Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored yn y Brifysgol: "Mae'r Drindod yn adnabyddus am ei gyrsiau hyfforddi ym maes addysg awyr agored ac y mae'n bleser cyd-weithio gyda'r Urdd yn y gweithgaredd cyfffrous hwn. Mae nifer o staff yr Urdd yn raddedig o'r Brifysgol hon a braf yw nodi y bydd y radd BA Addysg Awyr Agored ar gael o fis Medi drwy gyfrwng y Gymraeg. Edrychwn ymlaen at gydweithio pellach yn y dyfodol."

I gyd-fynd â'r daith bydd dau o swyddogion Llwybrau i'r Brig Urdd Gobaith Cymru, Arwel Elias a Gwydion Tomos, yn cynnal sesiwn geufadu gyda rhai o aelodau Fforwm Ieuenctid Ceredigion am 10:30 bore ma. Bydd y sesiwn yn digwydd yn Harbwr Aberaeron a'r gobaith yw y bydd y criw yn hebrwng y tri ar ddechrau eu taith nes ymlaen heddiw. Bydd Gwydion ac Arwel yn cynnal sesiynau tebyg dros y tair wythnos nesaf wrth i'r ceufadwyr deithio ar arfordir ac afonydd Cymru.

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

PRESS RELEASE
Monday 31 May 2010

KAYAKING AROUND WALES

In an unusual exploit, three of Urdd Gobaith Cymru's outdoor officers based at Gwersyll yr Urdd Glan-llyn near Y Bala will attempt to kayak around Wales in three weeks. The adventure will start today at Aberaeron harbour. All three will attempt to circumnavigate around the Welsh coast, to the River Dee, down the River Severn and back out to sea via the Bristol Channel.

Arwel Phillips, Alun Pugh and Hefin Peregrine have been training and preparing for many months. All three work full time at Glan-llyn and are out-door enthusiasts.

The main objective is to raise the profile of Gwersyll Glan-llyn, and it's professional Welsh speaking out-door education tutors. The kayakers will also raise money for the Welsh Air Ambulance.

During the three week trip, two of Urdd Gobaith Cymru's new Outdoor Officers funded as part of the Assembly's 'Reaching the Heights' programme, will be tutoring youngsters on canoeing and kayaking skills across Wales. Small groups of youngsters will be given specialist training in water sports, will receive information regarding careers in the outdoor pursuit field and information regarding their local outdoor activities clubs around Wales.

Arwel explains: "Hefin, Alun and I are extremely lucky to have experienced long journey kayaker, Ray Goodwin to guide us. Ray was the first canoeist to circumnavigate Wales and also cross the Irish Sea. That journey which Hefin, Alun and I have since achieved was a 78 mile continuous trip for 21 hours in a kayak. This journey will be different. Although we will travel approximately 650 miles, we're estimating up to 40 miles a day, we will be able to stop inshore, sleep, eat and drink during the darker hours. We're hoping to achieve the journey in 21 days. I've already started my fitness regime, but I do think that for this trip we will need sheer strength of will and commitment rather than ultra fitness. I'm certainly looking forward to the challenge!"

The three would like to thank their sponsors for their support and assistance during the preparatory stages and the three week challenge. They include Urdd Gobaith Cymru, Magnox North, Trinity University College, Gelert and Urenco. Ceredig Amanuel, Head School of Sport, Health and Outdoor Education says:

"Trinity is renowned for its outdoor training courses and we are delighted to be working with the Urdd on this exciting venture. Many of the Urdd staff are Trinity graduates, and we are proud to announce that the BA Outdoor Education will be available from September through the medium of Welsh. We look forward to further collaboration in the future."

Two of Urdd Gobaith Cymru's Llwybrau i'r Brig (Routes to the Summit) officers, Arwel Elias and Gwydion Tomos, will hold a kayaking session with members of the Ceredigion Urdd Youth Forum in Aberaeron harbour at 10:30am this morning. The young Urdd members will accompany Arwel, Hefin and Alun ond the first part of their journey later on today. Arwel and Gwydion will hold similar sessions during the next three weeks as the kayakers circumnavigate Wales.

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday. The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.